Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A470 (CROESFAN REILFFORDD MOAT LANE, CAERSŴS, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2016

MAE GWEINIDOGION CYMRU wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, sy'n angenrheidiol oherwydd gwaith sy'n cael ei wneud ar gefnffordd yr A470 wrth Groesfan Reilffordd Moat Lane, Caersŵs, Powys, neu gerllaw iddi.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad a ganlyn yn weithredol rhwng 23:00 o'r gloch ar 19 Chwefror 2016 a 06:00 o'r gloch ar 22 Chwefror 2016 yn y lle cyntaf. Bydd y gefnffordd hefyd ar gau rhwng 23:00 o'r gloch ar 5 Mawrth 2016 a 09:30 o'r gloch ar 6 Mawrth 2016 ac ar amserau tebyg rhwng 2 Ebrill 2016 a 3 Ebrill 2016 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 20 metr i'r gogledd o Groesfan Reilffordd Moat Lane hyd at bwynt 20 metr i'r de o'r groesfan honno.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r de fydd mynd tua'r dwyrain ar yr A489 i'r Drenewydd, tua'r de ar yr A483 i'r Groes, tua'r gorllewin ar yr A44 i Raeadr Gwy ac ailymuno â'r A470 tua'r gogledd. I'r gwrthwyneb i draffig sy'n teithio tua'r gogledd.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall oherwydd amgylchiadau nad oedd modd eu rhag-weld.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchmynion Traffig Dros Dro/2016).

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

THE A470 TRUNK ROAD (MOAT LANE LEVEL CROSSING, CAERSWS, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2016

THE WELSH MINISTERS have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary because works are being executed on or near the A470 Trunk Road at Moat Lane Level Crossing, Caersws, Powys.

It is expected that the following prohibition will initially operate from 23:00 hours on 19 February 2016 until 06:00 hours on 22 February 2016. Two further closures will operate from 23:00 hours on 5 March 2016 until 09:30 hours on 6 March 2016 and at similar hours from 2 April 2016 until 3 April 2016 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding in the length of the trunk road that extends from a point 20 metres north of the Moat Lane Level Crossing to a point 20 metres south of the said crossing.

The alternative route for southbound traffic will be via A489 eastbound to Newtown, the A483 southbound to Crossgates, the A44 westbound to Rhayader and re-join the A470 northbound. Vice versa for northbound traffic.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required due to unforeseen circumstances.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (Select: Legislation/ Subordinate Legislation/Local Statutory Instruments/Temporary Traffic Orders/2016).

M D BURNELL
Transport, Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE